(This document is also available in English)

| | |
|---|---|
| **Enw'r Prosiect:** | **Amdani! Conwy** |
| **Teitl y Ddogfen:** | **Canllaw Asesu Mynediad (Cymraeg)** |

Mae hwn yn ganllaw i'ch helpu i feddwl am ffyrdd y gallwch wneud eich lleoliadau, prosiectau a digwyddiadau yn hygyrch i amrywiaeth o bobl yn arbennig y rhai sydd ag anghenion mynediad penodol megis pobl anabl, pobl fyddar neu rai niwrowahanol.

Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd yn unol ag arferion gorau a dysgu a gafwyd drwy gydol y prosiect Amdani! Conwy. Dewch yn ôl ati am arweiniad pan fyddwch yn cyflwyno Disgrifiad o Rôl y Gwirfoddolwr i Amdani! Conwy.

Cysylltwch â David Cleary - Swyddog Mynediad a Chynhwysiant os oes gennych unrhyw gwestiynau, ymholiadau neu angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol. E-bost: david@dacyrmu.com neu ffoniwch 07743 932406 i drefnu galwad.

| | **Maes mynediad** | **Ystyriaeth** | **Camau Lliniaru** | **Mesurau Ychwanegol** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymgynghori a chynllunio | - A ydych wedi gofyn i bobl beth yw eu gofynion mynediad?<br><br>Sut ydych wedi gofyn am y wybodaeth hon? | - Ymgynghori neu drefnu archwiliad mynediad gyda staff a grwpiau sydd â phrofiad bywyd yn y camau cynllunio cynnar.<br>- Neilltuo cyllideb ar gyfer cefnogaeth mynediad mewn ceisiadau cyllid. | - Cyfathrebu gwybodaeth mynediad yn glir mewn deunydd hyrwyddo.<br>- Sicrhau bod sianel ar agor i fynychwyr ofyn am gymorth gyda'u hanghenion mynediad cyn y digwyddiad. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | - Sicrhau bod dulliau cyfathrebu hygyrch ar gael i fynychwyr anabl/byddar er mwyn iddynt allu rhoi adborth: h.y. Ffôn testun pwrpasol, cyfeiriad e-bost cyhoeddus, cyfarfod grŵp gyda Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain. | - Ymateb i adborth o ran mynediad a chreu cynllun gweithredu i leihau rhwystrau yn y dyfodol. |
| 2 | Gofynion symudedd/ mynediad gwastad | - A ydych wedi meddwl am fynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn a'r rhai sydd angen mynediad gwastad? | - Cynllunio ar gyfer lefel gwastad. Archwilio'r lleoliad, gan nodi rhwystrau posibl a mapio'r llwybrau hygyrch.<br>Canfod:<br>- Llethrau serth<br>- Cyrbau, grisiau a thir anwastad<br>- Lleoliad y rampiau<br>- Lleoedd parcio a mannau gollwng. Gweler adran 7.<br>- Llwybrau teithio a chludiant cyhoeddus. Cynnwys lleoliad y safleoedd bws agosaf, safleoedd tacsi sy'n agos at y lleoliad/digwyddiad. Gweler adran 8. | - Talu am gost cynorthwywyr personol os gofynnir am hynny.<br>- Sicrhau bod staff ar gael wrth gyrraedd i helpu gyda drysau trwm neu i gadw'r lle yn rhydd rhag rhwystrau.<br>- Prynu neu rentu rampiau cadair olwyn lle mae eu diogelwch wedi'i ardystio.<br>- Archebu cludiant cyhoeddus neu dacsis gyda ramp cadair olwyn neu fynediad mwy hwylus.<br>- Galluogi mynediad ar-lein o bell sy'n nodi'r pwyntiau mynediad a'r cyfleusterau – dweud beth na ellir ei wneud – h.y. safle treftadaeth heb fynediad i'r llawr cyntaf. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | - Drysau a sut maent yn cael eu gweithredu neu eu defnyddio h.y. a ydynt yn agor yn awtomatig neu â llaw? Os ydynt yn agor â llaw, pa mor drwm ydynt? A ydynt yn ddrysau tân, ac a ellir eu defnyddio fel llwybrau dianc digonol?<br>- Coridorau (o leiaf 200cm o led).<br>- Mynediad lifft - Cynnwys gwybodaeth am y lifft. Nodi'r capasiti, y dimensiynau a pha synau i'w ddisgwyl?<br>Beth yw'r nodweddion gweithredu? Er enghraifft: mae rhai lifftiau yn gofyn i'r defnyddiwr bwyso botwm i lawr a all fod yn broblemus i rai pobl.<br>- Cyfleusterau hygyrch. Sut maent yn hygyrch?<br>- Er enghraifft - Toiledau: Sut mae pobl yn eu cyrraedd, pa offer y maent yn ei gynnwys a pha mor fawr ydynt? Gweler adran 9. | - Pa gynlluniau wrth gefn a ellir eu rhoi ar waith i fodloni anghenion? Gall hyn gynnwys darparu staff ychwanegol gyda gwybodaeth am wacáu a phwyntiau allweddol eraill sy'n berthnasol i'r digwyddiad. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | - A oes cownterau isel yn y bariau, caffis a'r swyddfeydd tocynnau?<br>- Capasiti cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau neu nodi ardal mewn digwyddiad neu arddangosfa i bobl ag anghenion mynediad gwastad allu symud yn hawdd. | |
| 3 | Digwyddiadau torfeydd ar raddfa - Cynulleidfaoedd dros 300 | Mae angen ystyried diogelwch pobl a sut y gall pobl anabl gael y profiad gorau heb gyfaddawdu.<br>Nid yw un dewis i bawb yn dderbyniol a rhaid i'r digwyddiad/ lleoliad gael cynllun yn dibynnu ar sut mae'r digwyddiadau'n cael eu rhedeg. | - A yw'r fynedfa yn gallu caniatáu i'r holl fynychwyr fynd allan yn ddiogel?<br>A yw'r staff wedi'u hyfforddi i sicrhau bod anghenion gwahanol bobl yn cael eu hystyried? A fydd angen i chi wasgaru gwahanol grwpiau o fynychwyr?<br>Staff digwyddiadau a lleoliadau cyflogedig a hyfforddedig ar waith i reoli gwirfoddolwyr a thyrfaoedd.<br>- Dulliau dangos y ffordd clir a hawdd i'w darllen gyda lluniau a symbolau cyfeiriadol neu godau lliw. | - Gall amseroedd mynediad gwasgaredig helpu pobl anabl gwahanol i fynd i mewn yn ddiogel gan ddibynnu ar faint a gofod eich digwyddiad – gan ganiatáu i bobl sydd ag anghenion mynediad gwastad neu faterion yn ymwneud â gorlwytho'r synhwyrau i fynd i mewn yn gyntaf.<br>- Darparu clustffonau personol neu glustffonau sy'n cael eu gosod yn y clustiau sy'n tawelu sŵn.<br>- Os ydych yn defnyddio Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain gwnewch yn siŵr fod pobl fyddar yn gwybod lle allant weld y dehonglwyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | - Timau cynhyrchu yn gosod baricedau, marciau ac isadeiledd digwyddiadau sy’n caniatáu llwybrau hygyrch o gwmpas y digwyddiad.<br>Cyfathrebu mewn gwybodaeth hyrwyddol y bydd y gweithgaredd yn brysur ac yn swnllyd. | - Gwybodaeth o ran a oes synau uchel, cleciau neu oleuadau’n fflachio?<br>Os yw’r digwyddiad yn rhan o raglen neu gyfres o ddigwyddiadau, a oes modd i un o’r digwyddiadau fod yn fwy ‘ymlaciol’ neu’n berfformiadau hygyrch?<br>- Cyfeiriwch at yr Archwiliad Mynediad yn adran 1. Ymgynghoriad<br>- Ystyriwch yr oriau agor a sicrhewch fod darpariaeth mynediad ar waith ac wedi’i drefnu mewn digon o amser. Yng Nghonwy, mae’n cymryd o leiaf 6 wythnos i ddiogelu Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain. |
| 4 | Goleuadau’n fflachio a sŵn uchel | - A oes unrhyw oleuadau’n fflachio’n rheolaidd sy’n effeithio ar faterion sensitifrwydd golau neu synau uchel dirybudd a | - Cofiwch gynnwys ymwadiadau mewn gwybodaeth farchnata a hysbysiadau cyn mynd i mewn sydd ar gael mewn fformatau hygyrch.<br>- Rhowch rybudd i staff a’r cyhoedd o ran pryd y bydd yr | - Trefnwch ddigwyddiadau ‘ymlaciol’ hygyrch amgen neu ychwanegol gyda llai o ysgogiad synhwyraidd a goleuadau mwy sefydlog. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | allai orlwytho'r synhwyrau? Rhowch olau ar unrhyw Ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain er mwyn gallu eu gweld bob amser. | elfennau goleuo a sŵn yn dechrau. | |
| 5 | Gwahaniaethu (Staff, artist, contractwyr, gweithwyr technegol a'r cyhoedd) | - Pa gamau a gymerir os yw rywun yn wahaniaethol neu'n ymosodol? Cofiwch y gall gwahaniaethu fod yn anfwriadol hefyd. | - Cyfeiriwch at y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<br>- Staff lleoliad cyflogedig a hyfforddedig ar waith ac o fewn cyrraedd i alw arnynt mewn argyfwng.<br>Ni ddylai unrhyw wirfoddolwyr gael eu hynysu neu fod yn anghyraeddadwy yn ystod sifftiau.<br>- Briffio staff a gwirfoddolwyr o'r weithdrefn adrodd gyfrinachol a'r goeden gyfathrebu (Cofiwch gynnwys Amdani! Conwy pan fydd digwyddiadau'n cynnwys gwirfoddolwr). | - Sicrhau bod staff cyflogedig wedi'u hyfforddi mewn gwrth-aflonyddu a gwahaniaethu.<br>Ffoniwch 999 mewn achosion o ymddygiad parhaus neu dreisgar.<br>- Gwnewch yn siŵr bod diogelwch achredig a hyfforddedig ar waith yn ystod digwyddiadau pan fo angen, fel mewn digwyddiadau sy'n gweini alcohol.<br>- Ffurfiwch bartneriaethau neu rhowch system atgyfeirio ar waith gyda darparwr iechyd i gynnig cymorth gofal i ddioddefwyr camdriniaeth.<br>Nodwch a gweithredwch unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y profiad i'w hatal rhag digwydd eto. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | - Gwnewch yn siŵr bod cymorth ôl-ofal yn cael ei gynnig ac ar gael i ddioddefwyr camdriniaeth. | |
| 6 | Goruchwylio a stiwardiaeth | - Pa ystyriaethau mynediad sy'n weithredol i staff a gwirfoddolwyr?<br>A oes cyfnodau hir o sefyll?<br>Ym mha leoliadau mae pobl h.y. ger mynedfeydd neu yn yr awyr agored?<br>A oes unrhyw bryderon o ran yr amgylchedd a allai effeithio ar y synhwyrau megis arwynebau caled, goleuadau yn newid, mannau tywyll? | - Darparwch seddi pwrpasol a chyfforddus sy'n cefnogi'r cefn.<br>- Gosodwch pobl mewn lleoliadau cynnes neu newidiwch y sifftiau i amrywio'r lleoliadau.<br>- Trefnwch egwyliau rheolaidd.<br>- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfathrebu'r rota ymlaen llaw.<br>- Cyfathrebwch amodau'r gofod mewn deunyddiau hyrwyddo a marchnata, h.y. goleuadau cyfeiriadol, tymheredd, synau, arogleuon. | - Strwythurwch y rota i gynnwys sifftiau amser byr lluosog i gefnogi stiwardiaid sy'n profi blinder.<br>- Caniatewch egwyliau mwy rheolaidd i gyd-fynd ag anghenion mynediad neu amserlen feddyginiaeth unigolyn.  Gweler 13. Dogfennau Hyfforddiant a Mynediad<br>- Gweler 10 Cyfathrebu - Creu Stori Gymdeithasol<br>Anogwch adolygiad ac adborth gan staff a gwirfoddolwyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Parcio a mannau gollwng | - A oes parcio hygyrch ger y lleoliad neu ddigwyddiad?<br>- A oes digon o fannau gollwng a chasglu? | - Nodwch y lleoliadau parcio a'r prisiau mewn cynnwys marchnata a hyrwyddo.<br>Gwnewch yn siŵr bod y gofodau parcio hygyrch yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn cael eu diogelu.<br>- Cyfathrebwch y pellter a'r tirwedd rhwng y lleoliad a'r maes parcio yn cynnwys unrhyw lethrau.<br>Sicrhewch nad oes unrhyw rwystrau sy'n amharu ar fannau gollwng ceir a thacsis. | - Gweler 10. Cyfathrebu - Creu Stori Gymdeithasol neu fideo o'r llwybr.<br>- Derbyniwch geisiadau ymlaen llaw a neilltuwch ofodau parcio ymlaen llaw i wirfoddolwyr a staff anabl a'u rheoli i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol. |
| 8 | Cludiant cyhoeddus | - A oes llwybr cludiant cyhoeddus rheolaidd a hygyrch i'r digwyddiad neu leoliad? | - Trefnwch weithgareddau yn agos at gysylltiadau cludiant cyhoeddus.<br>- Cyfathrebwch y pellter rhwng y gweithgaredd a'r safle bws neu orsaf drên agosaf.<br>- Ymchwiliwch a oes gan y gorsafoedd lifft neu fynediad gwastad heb gymorth o'r platfform.<br>- Cofiwch gynnwys dolenni at wybodaeth am amserlenni cludiant cyhoeddus. | - Trefnwch ddigwyddiadau o gwmpas cysylltiadau bws a thrên. Os oes gwasanaethau afreolaidd, dewch â'r digwyddiad i ben mewn pryd i ganiatáu i bobl gyrraedd eu cysylltiad.<br>- Archebwch dacsis / cerbydau hygyrch ymlaen llaw os yw'r digwyddiad yn rhedeg yn hwyr.<br>- Trefnwch gludiant gyda chwmni llogi coets lleol. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>- Darparwch sicrwydd ariannol ar gyfer costau cludiant gwirfoddolwyr. Bydd Amdani! Conwy yn cefnogi hyn ar gyfer ein gwirfoddolwyr.</td><td></td></tr>
<tr><td>9</td><td>Cyfleusterau toiled</td><td>- A yw’r toiledau a chyfleusterau yn hygyrch ac a oes arwyddion clir?</td><td>- Cyfathrebwch pa gyfleusterau sydd ar gael a’u lleoliad ar safle’r gweithgaredd mewn fformatau amrywiol, rhowch arwyddion ar wefannau neu sicrhewch fod yna bwyntiau gwybodaeth cyffyrddol.<br>- Cynhaliwch ddigwyddiadau mewn ardaloedd sy’n agos at gyfleusterau hygyrch.<br>- Ceisiwch gynnwys rhestr o beth mae’r toiledau hygyrch yn ei gynnwys:<br>● Gofod llawr mawr<br>● Canllawiau cydio<br>● Sedd doiled uwch<br>● Drychau a sinciau isel<br>● Cortyn larwm brys<br>● Drws ysgafn sy’n agor y ddwy ffordd</td><td>- Talwch am gostau cynorthwywyr personol.<br>- Ceisiwch gael gwaried ag unrhyw rwystrau rhwng y digwyddiadau a’r cyfleusterau.<br>- Dylai staff gynnig cefnogaeth gyfeiriadol a chynorthwyol i’r cyfleusterau.<br>- Buddsoddwch mewn cyfleusterau arbenigol gyda theclyn codi.<br>- Buddsoddwch mewn toiledau cynhwysol nad ydynt ar gyfer un rhywedd penodol.<br>- Rhowch groeso sy’n cael ei sain ddisgrifio gydag eglurhad o’r cynllun.<br>- Sicrhewch fod y drychau yn cael eu gosod ar uchderau gwahanol. Nid yw’r holl gyfleusterau hygyrch yn cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr cadair olwyn.</td></tr>
</table>

**(This document is also available in English)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ● Safle trosglwyddo h.y. i'r chwith, i'r dde neu'r ddwy ochr | Rhowch arwyddion i fyny sy'n dweud rhywbeth fel – 'nid yw pob nam yn weladwy'. |
| 10 | Cyfathrebu | A yw'r iaith a fformat gwybodaeth farchnata yn hygyrch i bawb?<br><br>A yw'r negeseuon mewn Cymraeg neu Saesneg hawdd i'w ddarllen?<br><br>A oes delweddau sy'n dangos amrywiaeth a chroeso i ystod o bobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig? | - Gwnewch yn siŵr bod deunyddiau marchnata sydd wedi'u hargraffu a digidol yn cael eu defnyddio.<br>Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio:<br>● Iaith hawdd i'w ddarllen a strwythur brawddegau byr.<br>● Testun mawr - 16pt a ffont sans serif.<br>● Delweddau, symbolau, lluniau a chyfathrebu di-eiriau.<br>- Sicrhewch fod y delweddau digidol a deunyddiau marchnata yn cynnwys fformatau sy'n darparu testun amgen a meddalwedd darllen sgrin (PDFs Rhyngweithiol). Defnyddiwch fideo a gwybodaeth ar dap ar wefannau neu sicrhewch eu bod ar gael i'w lawrlwytho. | - Rhannwch neu cyflwynwch godau QR sy'n caniatáu i bobl lawrlwytho adnoddau sy'n gweithio ac sy'n cyd-fynd â meddalwedd hygyrchedd.<br>- Gwnewch yn siŵr bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill (Ysgrifenedig / Sain / Yn Cynnwys Meddalwedd sy'n Gallu Darllen Sgrin).<br>- Gwnewch yn siŵr bod fersiynau testun plaen ar gael.<br>- Creu Stori Gymdeithasol. Gall hwn gynnwys canllaw ffotograffig, fideo, gweledol neu ysgrifenedig i gyfathrebu mynediad o'r adeilad a'r digwyddiad a'r ardal gyfagos sy'n ymgyfarwyddo ymwelwyr gyda'ch digwyddiad/lleoliad. Hyrwyddwch yr adnodd hwn trwy eich sianelau marchnata a'i rannu a'i hyrwyddo gyda rhwydweithiau Anabledd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | - Datgelwch ragenwau ar ddechrau pob sesiwn briffio. | |
| 11 | Diogelwch Tân (Larymau) | - A yw'r weithdrefn neu larwm argyfwng yn cyfathrebu gyda staff, gwirfoddolwyr a chynulleidfaoedd byddar, sydd â nam golwg neu rai niwroamrywiol? | - Rhowch friff o'r weithdrefn gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar ddechrau gweithgaredd.<br>- Gwnewch yn siŵr bod yr arwyddion i ddangos y llwybrau dianc yn weladwy ac yn cael eu gwirio.<br>- Gwnewch yn siŵr bod y llwybrau dianc yn glir o rwystrau ac yn hygyrch i bawb.<br>- Dylai staff cyflogedig gymryd cyfrifoldeb dros wagio gwirfoddolwyr a'r cyhoedd allan o'r adeilad. | - Gwnewch yn siŵr bod systemau larwm wedi'u cysylltu â ffynhonnell golau strôb neu ffynhonnell dirgrynu.<br>Gall yr holl staff/gwirfoddolwyr ddysgu iaith arwyddion sylfaenol ar gyfer larymau a chyfarwyddiadau i'r pwyntiau gadael yr adeilad.<br>- Buddsoddwch mewn meddalwedd diogelwch sy'n rhoi hysbysiadau i ffonau symudol. |
| 12 | Dehongliad | - A yw cyfathrebu byw yn cael ei gefnogi ac a yw'n hygyrch? | - Cofiwch gynnwys offer, symbolau a delweddaeth cyfathrebu gweledol.<br>- Cyfathrebwch pa fynediad sydd ar waith mewn cynnwys | - Darparwch Ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain sy'n weladwy i'r gynulleidfa gyfan. Mae angen 2 dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau sy'n para dros awr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hyrwyddo gyda symbolau a thestun.<br>- Rhannwch y cynnwys gyda mynychwyr a staff cyn y digwyddiad.<br>- Archebwch weithwyr technegol perthnasol mewn da bryd.<br>Gwnewch yn siŵr bod offer ar gyfer disgrifiad llafar a chyfieithu yn cael ei drefnu'n ddigon buan a phrofwch yr offer ymlaen llaw. | - Sicrhewch ddisgrifiad llafar o elfennau gweledol ac ysgrifenedig ar gyfer mynychwyr, gwirfoddolwyr a staff dall ac sydd â nam golwg.<br>- Gwnewch yn siŵr bod Dehonglwyr Iaith dewisol ar gael mewn digwyddiad corfforol ac ar-lein gyda darparwr achrededig.<br>- Darparwch STTR neu gymorth isdeitlau. Darparwch x 2 ar gyfer digwyddiadau sy'n para dros awr.<br>- Cofiwch gynnwys siaradwyr dwyieithog mewn gweithgareddau. Gwnewch yn siŵr bod y systemau dolen clyw ymlaen ac yn gweithio'n iawn.<br>- Defnyddiwch ficroffonau crwydrol gydag unrhyw ryngweithiad cyhoeddus yn ystod digwyddiadau. |
| 13 | Dogfennau Hyfforddiant a Mynediad | - A oes gan eich sefydliad ymwybyddiaeth o ac yn defnyddio dogfennau neu lawlyfrau Mynediad gyda | - Trefnwch Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd rheolaidd i staff ar bob lefel a bwrdd o fewn sefydliad.<br>- Cyfathrebwch mewn deunydd marchnata a hyrwyddo eich bod yn gweithio i'r Model | - Gweithredwch y tu hwnt i addasiadau rhesymol a newidiwch yr amodau gweithio mewn gweithgareddau lleoliad a digwyddiad i fodloni'r anghenion mynediad. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | phob aelod o'r tîm? | Cymdeithasol o Anabledd yn gyhoeddus.<br>- Gweithredwch y defnydd o "Ddogfennau neu ddatganiadau o anghenion Mynediad" ar gyfer gweithwyr mewnol ac allanol a gwirfoddolwyr.<br>- Hyfforddwch staff i ddefnyddio iaith sy'n grymuso ac yn osgoi disgrifiadau meddygol.  Dylai'r ymadroddion ganolbwyntio ar y rhwystrau amgylcheddol a pha gymorth mynediad y mae unigolyn ei angen, nid ar eu namau. | Gwnewch yn siŵr bod mynediad yn cael ei gynnwys mewn unrhyw drafodaethau neu gytundebau rhwng gweithwyr a gwirfoddolwyr Anabl a/neu Byddaf a Niwrowahanol i ganiatáu iddynt wneud eu dyletswyddau. |